Llywodraeth Cymru
Welsh Government




# ReAct+
Cymorth cyflogaeth mor unigryw a chi.

Pecyn cymorth

# ReAct+
Employment support as unique as you.

Toolkit

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Cymru'n Gweithio
Working Wales

Undeb Ewropeaidd
European Union
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

# Cynnwys

# Contents


| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | Cefndir | 3 | Background |
| 4 | Cyflwyniad i ReAct+ | 4 | Introduction to ReAct+ |
| 5 | Cysyniad creadigol | 5 | Creative concept |
| 6 | Sut gallwch chi helpu | 6 | How you can help |
| 7 | Buddion y rhaglen | 7 | The programme’s benefits |
| 8 | Trosolwg o’r cymorth sydd ar gael | 8 | Overview of support available |
| 9 | Cymhwysedd | 9 | Eligibility |
| 10 | Deunyddiau marchnata | 10 | Marketing materials |
| 11 | Copi cymdeithasol | 11 | Social copy |
| 12 | Copi cymdeithasol | 12 | Social copy |
| 13 | Manylion cyswllt | 13 | Contact information |

# Cefndir

# Background




Er bod economi Cymru yn dechrau adfer ar ôl effaith gychwynnol Brexit a phandemig COVID-19, mae'n dal i achosi anawsterau i bobl sy'n byw yng Nghymru sy'n ei chael hi'n anodd cael gwaith.

O ran yr unigolion a oedd yn wynebu rhwystrau at waith yn barod, mae'r sefyllfa gymdeithasol ac economaidd bresennol wedi golygu bod llawer yn wynebu mwy fyth o anfantais.

Er mwyn helpu i wella'r canlyniadau o ran cyflogaeth i'r unigolion hyn ac ailadeiladu economi Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn sawl rhaglen cyflogadwyedd a hyfforddiant. Nod y rhaglenni hyn yw bod o fudd i unigolion a galluogi busnesau i dyfu fel y gallwn, gyda'n gilydd, ddiwallu anghenion ein tirlun economaidd sy'n newid.

Un ffordd y mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu datgelu yw drwy'r **Warant i Bobl Ifanc.** Wedi'i lansio yn 2021, mae'r Warant i Bobl Ifanc yn ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddiwallu anghenion pobl ifanc drwy gynnig cefnogaeth i gael lle mewn addysg, hyfforddiant, neu gyflogaeth.

Er mwyn adeiladu ar hyn a helpu i wireddu'r ymrwymiad hwn ar gyfer oedolion o bob oed yng Nghymru, bydd rhaglenni cyflogadwyedd fel **ReAct+** yn cynnig cymorth personol wedi'i ariannu i'r rheini sydd ei angen fwyaf.

Though the Welsh economy is starting to recover from the initial impact of Brexit and the COVID-19 pandemic, it is still presenting difficulties for people living in Wales who are struggling to get into work.

For individuals who were already faced with barriers to employment, the current social and economic situation has left many at an even greater disadvantage.

To help improve the employment outcomes for these individuals and to rebuild the Welsh economy, the Welsh Government is investing in several employability and training programmes. These programmes aim to benefit individuals and to allow businesses to grow so that together we can meet the needs of our changing economic landscape.

One way that these plans have been unveiled is through the **Young Person's Guarantee.** Launched in 2021, the Young Person's Guarantee is a commitment from the Welsh Government to meet the needs of young people by offering support to gain a place in education, training, or employment.

To build on this and help bring this commitment to life for Welsh adults of all ages, employability programmes such as **ReAct+** will offer funded, personalised support to those that need it the most.

# Cyflwyniad i ReAct+

# Introduction to ReAct+

Mae ReAct+, sy'n cael ei lansio ym mis Mehefin, yn rhaglen newydd gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cymorth cyflogaeth personol yn rhad ac am ddim i helpu pobl i symud i gyflogaeth barhaus.

Mae ReAct+ yn rhaglen hyblyg sy'n ceisio helpu i ddileu'r bwlch mewn diweithdra ac anweithgarwch economaidd drwy ymateb i anghenion unigolion ac unrhyw rwystrau y gallan nhw eu hwynebu, fel bylchau mewn sgiliau, gwella hyder a lles.  Cynigir cefnogaeth ariannol hefyd drwy gyfrwng grantiau hyfforddi a datblygu sgiliau, cyllid ar gyfer teithio a gofal plant/gofal.

Prif nod y rhaglen yw cefnogi'r rheini sydd wedi colli eu swyddi yn ystod y 12 mis diwethaf neu sydd wedi cael hysbysiad dileu swydd, i gael gwaith. Fel rhan o'r Warant i Bobl Ifanc, bydd ReAct+ hefyd yn cefnogi pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Mae ReAct+ yn cymryd elfennau mwyaf llwyddiannus y rhaglen flaenorol a phatrymau cyflawni effeithiol er mwyn helpu miloedd o bobl i gael gwaith ledled Cymru.

## Amcanion:

- Mae ReAct+ yn darparu cymorth dysgu a datblygu personol i oedolion 18 oed a hŷn er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag cael gwaith.
- Nod ReAct+ yw lleihau nifer yr oedolion di-waith yng Nghymru.
- Mae'r rhaglen hefyd yn ceisio cynyddu hyder a chymhelliant cyfranogwyr i ddychwelyd i weithio ar ôl colli eu swyddi neu ar ôl cyfnod byr o ddiweithdra.

## At bwy mae'r rhaglen wedi'i hanelu:

Unigolion dros 18 oed sydd wedi colli eu swyddi yn ystod y 12 mis diwethaf neu sydd wedi cael hysbysiad dileu swydd. Mae'r rhaglen yn elfen bwysig o gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau - **Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach.**

## Sut mae cael mynediad:

Cymru'n Gweithio yw'r porth i unigolion gael gafael ar y cymorth sy'n cael ei ddarparu gan ReAct+.  Bydd anghenion yr unigolyn yn cael eu trafod â chynghorwyr Cymru'n Gweithio yn ystod asesiad a chyfweliad cyfeirio'r unigolyn.

Launching in June, ReAct+ is a new Welsh Government programme that offers free, personalised employment support to help people progress into sustained employment.

ReAct+ is a flexible programme that aims to help eliminate the gap in unemployment and economic inactivity by responding to the needs of individuals and any potential barriers they face, such as skills gaps, improving confidence and well-being.  Financial support is also offered by way of skills training and development grants, funding for travel and childcare/care.

The main aim of the programme is to support those who have become unemployed within the last 12 months or are under notice of redundancy, into work. As part of the Young Person's Guarantee, ReAct+ will also support 18 – 24 year olds who are not in education, employment or training.

ReAct+ takes the most successful elements of the previous programme and effective patterns of delivery to successfully support thousands of people into work across Wales.

## Objectives:

- ReAct+ provides personalised learning and development support for adults 18 years and above, to address any barriers that are preventing them from entering employment.
- ReAct+ aims to reduce the number of unemployed adults in Wales.
- The programme also seeks to increase participants' confidence and motivation to return to work after redundancy or a short period of unemployment.

## Who it is aimed at:

Individuals over the age of 18 who have become unemployed within the last 12 months or are under notice of redundancy. The programme is a key element of the Welsh Government's plan for employability and skills - **A Stronger, Fairer, Greener Wales.**

## How it can be accessed:

Working Wales is the gateway for individuals to access the support provided by ReAct+. The needs of the individual will be discussed with Working Wales advisers during the individual's assessment and referral interview.

# Cysyniad creadigol

# Creative concept




Rydyn ni'n gwybod bod rhwystrau pawb rhag cyflogaeth yn unigryw, a dyna pam rydyn ni'n adlewyrchu hyn yn negeseuon ein hymgyrch – **cymorth cyflogaeth mor unigryw â chi.**

Crëwyd ReAct+ i roi datrysiad sy'n unigryw i'r unigolyn, waeth beth yw eu hamgylchiadau neu eu dewisiadau. Yn greadigol, rydyn ni wedi gwireddu'r syniad yma drwy ddefnyddio agweddau ar fywydau pobl a chynnyrch sydd wedi'i greu mewn ffordd sy'n unigryw i'r person sy'n ei dderbyn.

Mae gan bobl **chwaeth** wahanol, ac yn aml maen nhw'n archebu diodydd sy'n unigryw iddyn nhw.

Mae gan bobl **steil** wahanol ac maen nhw'n gwisgo dillad sy'n unigryw iddyn nhw.

Ac maen nhw'n gwrando ar **sain** a cherddoriaeth maen nhw'n ei hoffi, sy'n unigryw iddyn nhw.

**Drwy ddefnyddio'r math yma o iaith a delweddau cysylltiedig, rydyn ni wedi llwyddo i ddod â'r hyn sy'n unigryw am ReAct+ yn fyw.**

- **Cymorth cyflogaeth mor unigryw â'ch chwaeth.**
- **Cymorth cyflogaeth mor unigryw â'ch steil.**
- **Cymorth cyflogaeth mor unigryw â'ch sain.**
- **Cymorth cyflogaeth mor unigryw â chi.**

We know that everyone's barriers to employment are unique which is why we reflect this in our campaign messaging **– employment support, as unique as you.**

ReAct+ has been created to provide a solution that's unique to the individual, no matter their circumstance or preference. Creatively, we've brought this idea to life by using aspects of people's lives and products that have been created in a manner that is unique to the person receiving them.

People have different **tastes** and often order drinks that are unique to them.

People have different **styles** and wear clothes that are unique to them.

And they listen to **sounds** and music that they like, that are unique to them.

**By using this type of language and associated imagery, we have brought the uniqueness of React+ to life.**

- **Employment support as unique as your taste.**
- **Employment support as unique as your style.**
- **Employment support as unique as your sound.**
- **Employment support as unique as you.**

# Sut gallwch chi helpu

# How you can help




Rydyn ni wedi creu amrywiaeth o ddeunyddiau marchnata defnyddiol a diddorol i helpu unigolion, cyflogwyr a rhanddeiliaid i ddeall buddion ReAct+.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd cymaint o gynulleidfaoedd â phosibl, byddem yn croesawu eich cefnogaeth i rannu ein deunyddiau marchnata a'n negeseuon ar eich sianeli h.y. gwefannau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Gellir defnyddio'r deunyddiau hyn hefyd i hwyluso sgyrsiau ymysg eich rhwydweithiau wrth gynnig cymorth a chyngor.

We've created a range of useful and engaging marketing materials to help individuals, employers and stakeholders understand the benefits of ReAct+.

To ensure we're reaching as many audiences as possible, we'd welcome your support in sharing our marketing materials and messages on your channels i.e. website and social media platforms.

These materials can also be used to facilitate conversations amongst your networks when offering support and advice.

# Buddion y rhaglen

# The programme's benefits



Mae sawl mantais i unigolion a chyflogwyr drwy gymryd rhan yn rhaglen ReAct+. Drwy weithio'n agos â chyflogwyr a rhanddeiliaid yng Nghymru, nod y rhaglen yw ymateb yn hyblyg ac yn gyflym i anghenion economi Cymru.

## Manteision i unigolion

Gyda rhwystrau at waith yn tyfu i'r rhai sydd eisoes dan anfantais, gall ymgeiswyr cymwys ddisgwyl:

- Cymorth personol ar gyfer anghenion unigol - mae ReAct+ wedi'i greu i roi ateb sy'n mynd i'r afael â rhwystrau at waith, sydd mor unigryw â'r unigolyn a'r heriau mae'n eu hwynebu. Gallai hyn gynnwys gweithgareddau fel mentora a chymorth hyfforddi er mwyn helpu i wella hyder a lles yr unigolyn.
- Cymorth cyllid grant ar gyfer costau - Bydd unigolion yn gallu cael gafael ar gymorth ariannol i helpu i dalu am hyfforddiant ac i ddatblygu sgiliau, a chostau eraill fel teithio a gofal plant.
- Cyfleoedd i hyfforddi a datblygu sgiliau - Bydd unigolion yn gallu datblygu'r sgiliau sydd ganddynt neu ddysgu sgiliau newydd i roi hwb i'w cyfleoedd i gael gwaith.

## Manteision i gyflogwyr

Drwy wella'r cyflenwad o lafur gydag unigolion medrus, brwdfrydig sy'n barod am waith, bydd ReAct+ yn cefnogi twf a datblygiad busnesau, gan alluogi busnesau i ymateb i'r amgylchedd economaidd sy'n newid.

- Gwell cynhyrchiant a chystadleurwydd drwy recriwtio staff o safon.
- Cyllid i helpu â chyflogau gweithwyr newydd yn y flwyddyn gyntaf.
- Cyllid ar gyfer hyfforddiant sy'n berthnasol i'r swydd er mwyn gwella sgiliau gweithwyr newydd.

There are several benefits to taking part in the ReAct+ programme for individuals and employers. By working closely with employers and stakeholders in Wales, the programme aims to respond flexibly and quickly to the needs of the Welsh economy.

## Benefits for individuals

With barriers to employment becoming even greater for those who were already disadvantaged, eligible applicants can expect:

- Personalised support for individual needs - ReAct+ has been created to provide a solution to address barriers to work, that is as unique as the individual and the challenges they face. This could include activities such as mentoring and coaching support to help improve an individual's confidence and well-being.
- Grant funding support with costs - Individuals will have access to financial support to help cover skills training and development, and other costs like travel and childcare.
- Training and skills development opportunities - Individuals will be able to develop the skills they have or learn new skills to boost their employment prospects.

## Benefits for employers

By enhancing the supply of labour with skilled, motivated and work ready individuals, ReAct+ will support business growth and development, enabling businesses to respond to the changing economic environment.

- Improved productivity and competitiveness through recruiting quality staff.
- Funding to help towards the first year's wages of new recruits.
- Funding for job-related training to sharpen the skills of new recruits.

# Trosolwg o'r cymorth ariannol sydd ar gael

# An overview of the funding support available

## Cyllid i unigolion

- Os ydy peidio â meddu ar y sgiliau cywir yn atal rhywun rhag cael gwaith, gallai'r unigolyn gael **hyd at £1,500** tuag at **hyfforddiant galwedigaethol.**
- Os ydy cyfrifoldebau gofalu'n atal rhywun rhag cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt, gallai'r unigolyn gael **hyd at £4,450** i helpu i dalu am **ofal/gofal plant.**
- Os ydy costau teithio a llety yn atal rhywun rhag mynychu sesiynau hyfforddiant, gallai'r unigolyn gael **hyd at £300** o **gymorth ychwanegol.**
- Os pennir **cymorth datblygiad personol** i oresgyn rhwystr at waith, gallai'r unigolyn hefyd gael **hyd at £500.**

## Cyllid i Gyflogwyr

- Drwy gyflogi gweithiwr cymwys, gall cyflogwr gael **hyd at £3,000*** i helpu tuag at gyflogau am y 12 mis cyntaf. Telir y **cymorth recriwtio hwn i gyflogwyr** mewn rhandaliadau chwarterol.
- Er mwyn helpu i wella sgiliau gweithiwr newydd cymwys, gall cyflogwr gael **hyd at £1,000** ar gyfer hyfforddiant sgiliau sy'n berthnasol i'r swydd. Gall y **cymorth hyfforddi hwn i gyflogwyr** helpu i ddod â gweithwyr newydd yn eu blaenau.

*Mae **£1,000** ychwanegol ar gael i gyflogwyr sy'n recriwtio rhywun anabl neu berson ifanc nad yw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Gall cyflogwyr sy'n recriwtio rhywun ifanc anabl nad yw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant gael **£2,000** ychwanegol.

## Benefits for individuals

- If not having the right skills is stopping somebody from gaining employment, the individual could receive **up to £1,500** towards **vocational training.**
- If caring responsibilities prevent somebody accessing the training they need, the individual could receive **up to £4,450** to help cover **care/childcare.**
- If the cost of travel and accommodation is preventing somebody attending training, the individual could receive **up to £300** in **extra support.**
- Where **personal development support** is identified to overcome a barrier to employment, the individual could also receive **up to £500.**

## Benefits for employers

- By taking on an eligible recruit an employer can receive **up to £3,000*** to help towards wages for the first 12 months. This **employer recruitment support** will be paid in quarterly instalments.
- To help sharpen the skills of an eligible new recruit an employer can receive **up to £1,000** for job-related skills training. This **employer training support** can help bring new recruits up to speed.

*An additional **£1,000** is available to employers who recruit a disabled person or a young person who is not in education, employment or training. Employers who recruit a young disabled person who is not in education, employment or training can receive an additional **£2,000.**






# Cymhwysedd

# Eligibility




I fod yn gymwys i gael cymorth ReAct+, rhaid i unigolion fod yn 18 oed a hŷn, byw yng Nghymru gyda'r hawl i fyw a gweithio yn y DU, a naill ai:

- Bod wedi cael hysbysiad dileu swydd ffurfiol neu;
- Bod wedi cael eu diswyddo neu fod yn ddi-waith yn ystod y 12 mis diwethaf neu;
- Bod rhwng 18-24 oed heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu;
- Bod yn gyn-droseddwyr a throseddwyr sy'n bwrw eu dedfryd yn y gymuned.

To be eligible for ReAct+ support, individuals must be aged 18+, resident in Wales with a right to live and work in the UK, and either:

- Under formal notice of redundancy or;
- Have been made redundant or unemployed within the last 12 months or;
- Aged 18-24 and not in education, employment or training or;
- Ex-offenders and offenders serving their sentence in the community.



# Deunyddiau marchnata

# Marketing materials

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys nifer o ddeunyddiau marchnata a fydd yn ddefnyddiol ar gyfer eich gwefan, eich sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu wrth i chi sgwrsio â darpar gleientiaid. Rydyn ni hefyd yn eich annog i roi nod tudalen a chysylltu â'n tudalennau sydd wedi'u hanelu at **unigolion** a **chyflogwyr.**

Gweler y ddolen lawrlwytho i gael rhestr lawn o'r asedau a'r copi cymdeithasol cysylltiedig - mae'r rhain ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

- X4 Animeiddiad 'hac sgiliau' sy'n cynnig cyngor syml ac effeithiol ar gyfer cyfweliadau (Cymraeg a Saesneg).
- X10 Llun llonydd yn hyrwyddo manteision ReAct+ (Cymraeg a Saesneg).
- X6 Ased 'Dyfalu'r swydd' yn amlinellu nodweddion personoliaeth allweddol sydd wrth wraidd ystod o yrfaoedd diddorol (Cymraeg a Saesneg).
- Fideo llysgennad arwrol Eli Walker (Saesneg) ac asedau cardiau dyfyniadau (Cymraeg).
- Fideo llysgennad arwrol Luke Dawson (Saesneg) ac asedau cardiau dyfyniadau (Saesneg).
- Fideo llysgennad arwrol Paul 'Stumpy' Davies (Cymraeg a Saesneg).
- Fideo llysgennad arwrol Mari Lovgreen (Cymraeg).
- Copi cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig am ReAct+ a'r pecyn cymorth personol mae'n gallu ei gynnig (Cymraeg a Saesneg).

**LAWRLWYTHO ASEDAU**

This toolkit contains several marketing materials that you will find useful for your website, social media channels, or in conversations with potential clients. We also encourage you to bookmark and connect to our pages aimed at **individuals** and **employers.**

Please see download link for a full list of assets and accompanying social copy, all of which are available in English and Welsh.

- X4 'Skills hack' animations offering simple and effective interview tips (English and Welsh).
- X10 Static images promoting the benefits of ReAct+ (English and Welsh).
- X6 'Guess the job' assets outlining the key personality traits at the heart of a range of interesting careers (English and Welsh).
- Eli Walker hero ambassador video (English) and quote card assets (Welsh).
- Luke Dawson hero ambassador video (English) and quote card assets Welsh).
- Paul 'Stumpy' Davies hero ambassador video (English and Welsh).
- Mari Lovgreen hero ambassador video (Welsh).
- Supporting social media post copy about ReAct+ and the personalised package of support it can offer (English and Welsh).

**DOWNLOAD ASSETS**

# Copi cymdeithasol

# Social copy

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio rhaglen newydd ReAct+ sy'n cynnig cymorth cyflogaeth mor unigryw â ti 🤝

Gall ReAct+ gynnig cyngor, cyllid a hyfforddiant i helpu pobl Cymru i gyrraedd eu nod gyrfaol ⭐

Dysga sut gall ReAct+ dy helpu i gael y swydd 👇

cymrungweithio.llyw.cymru/react-plws

The Welsh Government has launched ReAct+ - a new programme that offers employment support as unique as you🤝

ReAct+ can offer advice, funding and training to help people in Wales reach their career goals⭐

Learn more about how ReAct+ can help you 👇

workingwales.gov.wales/react-plus

Oeddet ti'n gwybod bod ReAct+ yn cynnig grantiau cyllid i dy helpu i gael gwaith fel rhan o becyn cymorth personol?

💷Mae cefnogaeth ariannol ar gael ar gyfer:

🚗Teithio
🏨Llety
👶Gofal/Gofal plant

I gael cymorth swydd mor unigryw â ti, cer i 👇

cymrungweithio.llyw.cymru/react-plws

Did you know ReAct+ offers funding grants to help you get into work as part of a personalised package of support?

💷Financial support is available for:

🚗Travel
🏨Accommodation
👶Care/Childcare

For employment support as unique as you, go to 👇

workingwales.gov.wales/react-plus

Mae ReAct+ yn cynnig cymorth personol i dy helpu i gael y swydd iawn i🙌

Bydd pecyn cymorth yn cael ei greu ar sail dy anghenion, a allai gynnwys:

💷Cyllid hyfforddiant
🤝Mentora
🔧Cymorth yn canfod cyfleoedd profiad gwaith

Cer i 👉cymrungweithio.llyw.cymru/react-plws

ReAct+ offers personalised support to help you get a job that's right for you🙌

A package of support will be built around your needs which could include:

💷Funding for training
🤝Mentorship
🔧Support to find work experience opportunities

Go to 👉workingwales.gov.wales/react-plus

# Copi cymdeithasol

# Social copy

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio rhaglen newydd ReAct+ sy'n cynnig cymorth cyflogaeth mor unigryw â ti🤝

Gall ReAct+ gynnig cyngor, cyllid a hyfforddiant i helpu pobl ledled Cymru i gyrraedd eu nod gyrfaol. Waeth beth yw'r rhwystr, mae cymorth ar gael.

Dysga fwy am sut gall ReAct+ dy helpu i gael y swydd berffaith i ti👇

cymrungweithio.llyw.cymru/react-plws

Oeddet ti'n gwybod y gallai ReAct+ gynnig grantiau cyllid i dy helpu i gael gwaith fel rhan o becyn cymorth personol?
Mae cefnogaeth ariannol ar gael i dy helpu i gael gwared ar rwystrau sy'n dy atal rhag bod yn barod am swydd, gan gynnwys:

🚗Teithio
🏨Llety
👶Gofal/Gofal plant

Gwiria heddiw i weld a wyt ti'n gymwys, a dysga fwy am gymorth cyflogaeth mor unigryw â ti👇

cymrungweithio.llyw.cymru/react-plws

Mae ReAct+ yn cynnig cymorth personol i dy helpu i gael swydd sy'n iawn i ti! 🙌

Bydd pecyn cymorth wedi'i deilwra yn cael ei greu ar sail dy anghenion, a allai gynnwys:

💷Cyllid hyfforddiant
🤝Mentora
🔍Cymorth yn canfod cyfleoedd profiad gwaith

I gael cymorth cyflogaeth mor unigryw â ti, cer i 👉cymrungweithio.llyw.cymru/react-plws

The Welsh Government has launched ReAct+ - a new programme that offers employment support as unique as you🤝

ReAct+ can offer advice, funding and training to help people across Wales reach their career goals. Whatever your barrier, help is available.

Learn more about how ReAct+ can help you get a job you'll love👇

workingwales.gov.wales/react-plus

Did you know that ReAct+ could offer you funding grants to help you get into work as part of a personalised package of support?
Financial support is available to help remove barriers that might be stopping you from getting work ready, including:

🚗Travel
🏨Accommodation
👶Care/Childcare

Check if you're eligible today and discover more about employment support as unique as you👇

workingwales.gov.wales/react-plus

ReAct+ offers personalised support to help you get a job that's right for you! 🙌

A customised package of support will be built around your needs which could include:

💷Funding for training
🤝Mentorship
🔍Support to find work experience opportunities

For employment support as unique as you, go to 👉workingwales.gov.wales/react-plus

# Y dudalen olaf

# Contact

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Os oes gennych chi ymholiadau ynghylch unrhyw rai o'r asedau amgaeedig cysylltwch â:

**Jamie Brice**

**jamie.brice@gov.wales**

Os oes gennych ymholiadau ynglŷn â rhaglen ReAct+, cysylltwch â:

**reactenquiries@gov.wales**

**ReAct+**
Cymorth cyflogaeth mor unigryw â chi.
Chwiliwch am Cymru'n Gweithio **ReAct+**
neu ffoniwch **0800 028 4844.**

For enquiries on any of the enclosed assets contact:

**Jamie Brice**

**jamie.brice@gov.wales**

For enquiries about the ReAct+ programme contact:

**reactenquiries@gov.wales**

**ReAct+**
Employment support as unique as you.
Search Working Wales **ReAct+**
or call **0800 028 4844.**

Gyrfa Cymru
Careers Wales

**Cymru'n Gweithio**
**Working Wales**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**
**European Social Fund**